HAF 2021

GWYBODAETH I DDYSGWYR

27 Mai 2021

Annwyl Ddysgwr

Gwybodaeth i ddysgwyr – Canllawiau apelio

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd ein dogfen ganllaw, cymwysterau 2021 – y cyfan sydd angen i chi ei wybod, ac rydym bellach wedi cyhoeddi gwybodaeth fanylach am y broses apelio ar gyfer eleni. Gan fod eich graddau'n cael eu pennu gan ysgolion a cholegau yng Nghymru eleni, bydd y broses apelio yn wahanol. Mae'r wybodaeth hon ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch CBAC a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

Os ydych chi wedi astudio ar gyfer cymwysterau eraill, gan gynnwys TGAU neu Safon Uwch a gynigir gan fyrddau arholi eraill, neu gymwysterau galwedigaethol, gall y broses apelio fod yn wahanol – holwch eich ysgol neu goleg a byddant yn dweud wrthych sut y gallwch apelio.

Ydych chi eisiau gwybod mwy?

Rydym yn cyhoeddi diweddariadau, gan gynnwys cwestiynau cyffredin, ar ein gwefan yn rheolaidd, ac yn postio gwybodaeth ar ein ffrydiau Facebook a Twitter a'n tudalen Instagram a lansiwyd yn ddiweddar.

Dweud eich Dweud

Hoffem glywed eich barn am y broses asesu ar gyfer dyfarnu graddau eleni, ac mae gennym arolwg 'Dweud eich dweud' fel y gallwn ddeall eich barn. Bydd yr arolwg yn ein helpu i wella ein cyfathrebiadau â dysgwyr, a bydd yn cau ar 6 Mehefin.

Yn gywir,

Philip Blaker
Prif Weithredwr